CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION CYFARFOD 24.06.2010 A GYNHALIWYD YN
NEUADD YR EGLWYS LLANBEDR PONT STEFAN GAN DDECHRAU AM 7.30PM

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD
Croesawodd y Maer Rob Phillips, bawb i'r Cyfarfod.
Offrymwyd gweddi gan y Gyng. Cecilia Barton.

YN BRESENNOL

Cyng Maer Rob Phillips (Cadeirydd);
Cyng. Tref a Sirol Robert (Hag) Harris (Is-Gadeirydd);
Cyng. Cecilia Barton; Elsie Dafis, John Davies;
Margaret Davies-Evans; Greg Evans; Lynda Mason-George;
Chris Thomas; Dorothy Williams; Derek Wilson.
Gohebydd y Wasg y Cambrian News Hannah Smith
SCC yr Heddlu Ryan Jones

2. YMDDIHEURIADAU A MATERION PERSONOL
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Tref Kistiah Ramaya; Andrew Carter, Selwyn Walters a'r Plismon Richard Marshall.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL A SY'N RHAGFARNU

3.1 **Bu i'r Maer a'r Cyng. Chris Thomas** ddatgan buddiant personol pan yn trafod y cais ariannol gan y Ffair Fwyd Llambed. Cwblhawyd y ffurflen "Datgan Diddordeb" ac ymadawsant â'r ystafell pan drafodwyd y swm o arian i'w gyfrannu i'r Mudiad.

3.2 **Bu i'r Cyng. Evans, Harris, Mason-George & Wilson** ddatgan buddiant personol pan yn trafod y cais ariannol gan Bwyllgor y Carnifal Llambed. Gadawsant yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Derbyniwyd newyddion mwyaf diweddar gan y SCCH Ryan Jones ynglŷn â digwyddiadau.

4.1 **Chwalwyd** llawer o gerrig beddau gan fandaliaid ym mynwent Eglwys San Pedr, Llambed. Y mae'r heddlu wedi dal nifer o'r troseddwyr.

4.2 **Ardal Gwahardd Alcohol ar gyfer Llambed** –dylai fod yn weithredol erbyn yr 2ail o Fedi 2010. Bydd yr ail Rybudd Cyhoeddus wedi ei arddnagos yn y wasg leol ac arwyddion wedi eu gosod mewn lle, cyn hynny.

4.3 **Gallai gosod** Gorchymyn Traffig ar Stryd y Farchnad fod yn broses hir a chymleth.

4.4 **Y mae nifer o bartion, yn ymwneud â phobl ieuainc** yn eu harddegau yn cael eu cynnal ym Mharc-yr-Orsedd yn ystod y penwythnosau ac ynghanol yr wythnos. Y mae trigolion lleol Heol y Bryn a Heol y Gogledd wedi datgan pryder parthed y sŵn sy'n deillio o'r fan, ac am yr effaith anffaffriol ar eu hansawdd bywyd.

Gadawodd SCCH Jones y Cyfarfod.

5. CADARNHAU COFNODION y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 27ain o Fai 2010
Cytunwyd bod cofnodion mis Mai yn gofnod cywir.

6. MATERION SY'N CODI

6.1 Cyfarfod gyda chynrychiolwyr y Cyngor Sir i drafod materion o gonsyrn gan aelodau'r Cyngor Tref: ***Disgwylir y Cofnodion oddi wrth y Cyngor Sir.*** Adroddwyd bod y Ganolfan Integredig i Blant ar gyfer Llambed, wedi derbyn cymeradwyaeth.

6.2 Gwelliannau ar gyfer Sgwâr Harford
Dim datblygiadau pellach gan fod Lowri Thomas CSC, allan o'r Swyddfa, ar hyn o bryd. Derbyniodd y prosiect gymeradwyaeth aelodau, a oedd yn gytûn y dylid gymryd camau i wella cyflwr y Sgwâr. Serch hynny, mynegwyd consyrn gan rai parthed y gost i'r Cyngor Tref, (tua £9,000). Nid oedd y gost wedi ei drafod o gwbl gan y Cyngor Sir yn ystod y cyfarfod safle a drefnwyd ganddynt ar y 1af o Fawrth 2010. Tynnwyd sylw aelodau i'r gost, yn gyntaf, yn ystod y cyfarfod o'r 27.05.2010. Y mae'r Cyngor Tref yn ymrwymo i atebolrwydd a chael gwerth am yr arian, pan yn ymwned â phenderfyniadau parthed gwario arian cyhoeddus.
Bydd y ffactorau hyn yn holl bwysig pan ddaw'r wybodaeth i glawr parthed y rhestr gwaith ar gyfer y sgwâr, i gynnwys y costau unigol gan y CSC.
Dywedodd y Cyng. G.Evans y gellir cynnig y gwaith i fasnachwyr lleol.
Yn disgwyl datblygiadau pellach gan y Cyngor Sir.

6.3 Cynigion i'w Trafod CBC Un Llais Cymru: Bu i'r Gyng Elsie Dafis argymmell, *Gosod Siarter mewn lle rhwng Cynghorau Cymuned/Tref a'r Cyngor Sir* fel cynnig i'w drafod. Bydd y gynhadledd yn rhoi'r cyfle i asesu cyfeiriad Cynghorau Cymuned a Thref Cymru yn y dyfodol, gyda ffocws penodol ar weithredu Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaeth Llywodraeth Leol a gymeradwywyd yn ddiweddar, i gynwwys gweithio fel siarter. Penderfyniad: I beidio â chyflwyno cynnig ar gyfer trafodaeth.

6.4 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru: Cynllun Gweithredu Blynyddol Drafft 2011-12: ymgynghoriad wedi cychwyn ar yr 11eg o Fai ac i orffen ar y 3.08.2010. *Y Maer i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.*

6.5 Arwydd Clos Glyndŵr: bu i'r Clerc atgofio'r Cyngor Sir o'r cais.
Disgwylir datblygiadau pellach gan y Cyngor Sir.

6.6 Llyfryn â ddosbarthwyd rhwng aelodau ac yn dal mewn cylchrediad: Ombwdsmon: Cod ymmdygiad Canllawiau Drafft gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyheoddus Cymru.

6.7 Ombwdsmon: Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau lleol yng Nghymru: Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Y mae'r Gyng Barton wedi darllen y ddogfen a gofynnodd am eglurhâd pellach parthed datgan diddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu. I geisio gwybodaeth pellach gan yr Ombwdsmon Cymru

6.8 Mudiad Masnach Deg Llambed: dim datblygiadau

6.9 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref: bydd yn cael i beintio'n ystod y dyfodol agos. Y mae problemau'n cael eu hamgyffred weithiau, pan y ceiso agor a chau un o'r drysau.

6.10 Trwsio'r Fainc ger 12 Bryn-yr-Eglwys: i ofyn i'r Cyngor Sir i waredu â'r fainc ac i adleoli un o'r meinciau sydd wedi eu lleoli wrth gefn yr hen ysgol gynradd i'r gwagle a fydd yn codi ger 12 Bryn-yr-Eglwys.

6.11 Amser cychwyn cyfarfodydd misol y Cyngor Tref: oherwydd gofynion eraill, mynegodd rai aelodau na ffafrient yr amser cychwyn o 7.00pm. I'w hystyried ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

6.12 Arddangos Bynting yn y dref – i ofyn i'r Cyngor Sir am ganiatâd i barhau i arddangos y bynting dros fisoedd yr haf.

6.13 Cysgodfannu Bws: Y mae Mr Mark Jenkins, Llanllwni wedi glanhau 3 cysgodfan bws y dref. Y Cyng. Chris Thomas i ymwneud ag ymholiadau parthed glanhau'r lloches bws ger Archfarchnad y Co-op. Penderfyniad: i ystyried gosod cytundeb glanhau cysgodfannau bws y dref, mewn lle, yn ystod y cyfarfod nesaf.

6.14 Materion Traffig

6.14.1 Lôn Picton: llythyr gan y Cyngor Sir:y mae trefniadau ar y gweill bod y cynllun ar y cyd, rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir yn dechrau yn ystod yr Hydref eleni h.y. yn ystod amser tymor y Brifysgol.

6.14.2 Mynedfa Maes-Parcio'r Rookery a Bysiau sy'n ymweld â'r Dref: derbyniwyd ymateb i'r llythyr o'r 24ain o Ebrill yr anfonwyd gan y Maer a oedd yn bodoli yn ystod yr amser hynny sef y Cyng. Selwyn Walters. Y mae'r Cyngor Sir wedi ystyried y posibiliadau sydd ar gael ar gyfer darparu cyfleusterau parcio penodedig, diogel, ar gyfer bysiau a mae ymchwil yn mynd yn ei flaen. I leihau symudiadau gwrthdroi bydd yn ofynnol bod y maes-parcio heb rwystrau, gan gynnwys y cyfleusterau ail-gylchu presennol ac efallai y collir nifer o'r mannau parcio ceir. Y mae'r cyngor sir hefyd yn ymgymryd ag asesiad diogelwch ar y ffordd ar gyfer yr opsiynau gwahanol. Deallir bod cynlluniau ar y gweill i ddarparu mynedfa newydd neu i addasu'r un presennol er mwyn lleoli llain chwarae ar gyfer bob tywydd ar gampws yr Ysgol Uwchradd Llambed. Bydd yn ofynnol ymwneud â thrafodaethau â'r holl bartion sy'n ynghlwm â'r maes parcio er mwyn bwrw'r maen i'r wal.

7. GOHEBIAETH

7.1 Is-ddeddfau Awdurdodau Lleol yng Nghymru – Papur Ymgynghorol: Llywodraeth Cynulliad Cymru:Ymatebion erbyn 17.09.2010. Cyng. Barton & Dafis i ddarllen y ddogfen.

7.2 Rhaglen Hyfforddiant Genedlaethol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref: Un Llais Cymru: i ystyried ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

7.3 Cais am eglurhâd parthed hen ffotograff yn ymwneud â Chyngor Tref Llambed yn dwyn y teitl *Dirprwyaeth o Gyngor Tref Llambed yn cyfarfod â Chadridog Brigadier Fryer. I ymwneud ag ymholiadau pellach*

7.4 Cais i arddangos gwybodaeth parthed Gwely & Brecwast yn Llanfair Clydogau ar wefan y Cyngor Tref: Penderfyniad: i ganiatau'n unig busnesau wedi eu lleoli o fewn yr ardal a gynrychiolir gan y Cyngor Tref.

7.5 Gohebiaeth eraill: er gwybodaeth yn unig.

8. MATERION CYNLLUNIO

8.1 Cais Cynllunio gan Gyngor Sir Ceredigion: Codi tŷ: Plot 5 Maeshyfryd, Llambed. Rhif y Cais: A100342. Ymgeisydd: Mr Euros Davies, 52 Penbryn, Llambed. Dyddiad a dderbyniwyd gan y Cyngor Tref: 17.06.2010: Arsylwadau'r Cyngor Tref: *Dim i'w cynnig.*

8.2 Cais Cynllunio gan Gyngor Sir Ceredigion: Codi tŷ: Plot 6 Maeshyfryd, Llambed. Rhif y Cais: A100343. Ymgeisydd: Mr & Mrs Lyndon Gregson, Oakdene, Llambed. Dyddiad a dderbyniwyd gan y Cyngor Tref: 17.06.2010. Arsylwadau'r Cyngor Tref: *Dim i'w cynnig.*

8.3 Pwyllgor Rheoli Datblygu CSC: Cofnodion 12.05.2010 ac Agenda y cyfarfod 9.06.2010: er gwybodaeth.

8.4 Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) CSC: gwybodaeth a dderbyniwyd megis:

8.4.1 Newid y Cytundeb Cyflenwi: Yn ddiweddar daeth CSC i gytundeb gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) ynghylch newidiadau i amserlen gyflenwi'r CDLl. Mae'r cytundeb newydd yn gosod targed ymgynghori newydd ar gyfer Fersiwn Adneuo sef mis Tachwedd 2010.

8.4.2 Papur ynghylch Dosbarthiadau Tai – Drafft Gweithredol. (Y Sir i gyd)

8.4.3 Prosoes Asesu'r Safleoedd Posibl – drafft gweithredol (Y Sir i gyd)

8.4.4 Map o'r holl Safleodd Posibl a gyflwynwyd – Drafft Gweithredol Canolfan Gwasnaaethau Trefol ar gyfer Llambed.

8.4.5 Crynodeb Gweithredol o'r asesiad o'r safleoedd posibl – Drafft Gweithredol Canolfan Gwasanaethau Trefol – Llambed

8.4.6 Map o ddyraniadau tir amodol y Ganolfan Gwasanaethau Trefol- Drafft Gweithredol ar gyfer Llambed. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys dyraniadau tai, yn bennaf.

Wedi eu cynnwys hefyd roedd cwestiynau i'w hystyried.
Ni gyflwynwyd ymateb i'r CSC.

9. MENTER LLAMBED

Adroddodd y Cyngor G Evans fod Menter Llambed wed derbyn les o 20+ o flynyddoedd ar y Neuadd Fictoria, gan y Cyngor Sir. Bydd Ymgynghoriad Cyhoeddus yn ymwneud â defnydd dyfodol y Neuadd, yn mynd yn ei flaen yn ystod y dyfodol agos.

10. CYLLID

10.1 Cais am gymorth ariannol gan Ffair Fwyd Llambed: Penderfyniad: i gyfrannu £500. Diolchodd y Cyng. Chris Thomas i'r Cyngor Tref am y rhodd.

10.2 Cais am gymorth ariannol gan Bwyllgor y Carnifal: Penderfyniad: i gyfrannu £400 ar ôl derbyn y Fantolen Ariannol.

10.3 NSPCC- i gyfrannu £25.00.

10.4 Penderfynwyd i beidio â chyfrannu at Rali Ewropeaidd Clwb Ffermwyr Ieuainc.

10.5 I ofyn i Mr Dave Smith, tybed a fyddai'n bosibl iddo archwilio cyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-10.

10.6 Mr Alec Page – 2 fainc o haearn ar gyfer cae Maesyderi £650 TAW: £113.75; Cyfanswm: £763.75.

10.7 Hirio'r Hen Neuadd, Prifysgol Cymru, Llambed: Sermoni Urddo'r Maer 7fed o Fai 2010; £200; TAW: £35.00 Cyfanswm: £235.

10.8 Cyfraniadau ar gyfer Elusennau o dan Adran 137(3) Deddf Llywodraeth Leol; £6.15 ar gyfer pob etholwr (uchafswm ar gyfer y flwyddyn ariannol 2009-10). Yng nghofnodion y Cyngor Tref o'r 25ain Ebrill 2002 y mae'n ysgrifenedig, "Cytunwyd ar y canlynol fel esiampl: Mudiadau Cenedlaethol heb swyddfa/gwiath lleol £25.00; Mudiadau â swyddfeydd/gwaith lleol wedi ei brofi yn y dref £50.00, Digwyddiadau â chefnogaeth y dref/cymunedau gwledig £100; Digwyddiadau â phroffil uchel yn y dref £350. Penderfyniad: *i glustnodi sylw pellach i'r mater yn ystod y cyfarfod nesaf.*

10.9 BT Bandlydan: 12 Mawrth – 12 Mehefin 2010 £124.23 (gan gynnwys TAW)

10.10 Glanhau 3 Cysgodfan Bws: Mr Mark Jenkins £30.00

10.11 Cyflog y Clerc Mehefin 2010 Gross: £614.51

10.12 Gwres/Trydan/Storio Mehefin £20.00

10.13 Hirio Neuadd San Pedr 7.06.2010 & 24.06.2010 £45.00

10.14 Cymdeithas Chwaraeon Llambed: ail-ysgrifennu siec wedi mynd yn ddi-werth £1,000 d/l Cyng. G. Evans.

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 Goleuadau Stryd
(Cyng J.Davies; D.Williams; M Davies-Evans; G. Evans)

11.1.1 **Setlwyd y broblem yn ymwneud** â'r golau stryd sy'n ymestyn o'r Garej Troedrhiw i Ystad Brynsteffan ar yr Heol y Gogledd gan Derwen Lighting.

11.2 Palmantau
(Cyng C.Thomas; L.Mason-George; E.Dafis; Y Maer R.Phillips)

11.2.1Darn o dir sydd angen sylw gerbron Gwesty'r Llew Du, Llambed. Bu i Mr Gareth Jones, Garej Mountwalk, dorri'r darn yma o dir pythefnos yn ôl. Dywedwyd mai nid ef yw perchennog y darn o dir er iddo gynnal y clwt pan oedd ei garej e'n gweithredu o'r fan yma. Roedd Rheolwr y Llew Du o'r farn hefyd mai nid eiddo'r Llew Du oedd y tir. Cytunodd i archwilio'r gweithredoedd. *Yn disgwyl y canlyniad.* Y Maer i ddiolch i Mr Gareth Jones, perchennog y garej Bronteifi am dorri'r glaswellt. Dywedodd Rheolwr y Llew Du ei fod yn barod I ddarparu sbwriel yng nghyffiniau'r Llew Du/Gorsaf Ambiwlans/Llys Idwal. Y Maer i ddiolch iddynt am eu haelioni.

11.2.2 Ceudyllau'n yr ardal wrth gefn 12 Teras Peterwell – yn ôl y Cyngor Sir y mae problemau'n ymwneud â pherchnogaeth wedi codi ond sydd wedi eu datrys erbyn hyn. Y mae Gorchymyn Swyddogol wedi ei osod mewn lle er mwyn cyflawni'r gwaith gan GSC.

11.3 Llwybrau Cerdded + Parc-yr-Orsedd
(Cyng A. Carter, H.Harris, S.Walters, C.Barton)

11.3.1 Y mae gwaith yn mynd yn ei flaen gan Mr E Williams. Bydd angen derbyniadau ar gyfer y gwaith sydd wedi ei gwblhau erbyn y 3ydd o Fedi 2010 i dderbyn cymhorthdal o 75%.

11.3.2 Parc-yr-Orsedd:

11.3.2.1Dylai'r offer heini gael eu trwsio'n ystod yr wythnos nesaf heb fod yn unrhyw gost ychwanegol i'r Cyngor Tref gan fod y gwarant/yswiriant mewn lle.

11.3.2.2Masg ar gyfer y gât: Mynedfa Heol y Gogledd: i atgofio Mr Alec Page o'r cais.

11.3.2.3Atgyweirio'r gât ar fynedfa Bryn-yr-Eglwys a dod o hyd i amnewidiad i'r asyn pren: ymholiadau'n mynd yn eu blaen.

11.4 Camerau TCC
(Cyng H.Harris, Maer R.Phillips, K.Ramaya)

11.4.1 Bu yna un cais gan yr Heddlu i archwilio deunydd digidol yn ymwneud â lladrad a gymerodd le ar y 3ydd o Fai 2010**.**

11.5 Pwyllgor Rheoli Cae Maesyderi

(Y Maer Cyng R.Phillips, C.Thomas; D.Wilson; C.Barton; G.Evans; S. Walters; Cyng. Sirol H.Harris; I.Williams; Lizzie James, Sue Davies; Maureen Williams; Eleri Thomas (Clerc).
Cofnodion ynghlwm o'r cyfarfod o'r 23ain o Fehefin. Bydd y Maer yn ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn am estyniad yn y les.

11.6 Yr laith Gymraeg

(Y Maer Rob Phillips; Cyng. Selwyn Walters, D.Williams, C.Thomas; E.Thomas (Clerc)
Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol at sylw Fwrdd yr laith Gymraeg ar gyfer ystyriaeth. Sylwyd mai dim ond cyfeiriad Saesneg sydd i'r wefan, sef www.lampeter-tc.gov.uk. Credid y dylai'r Cyngor fabwysiadu cyfeiriad Cymraeg yn ogystal â chyfeiriad Saesneg gan y gwneir defnydd helaeth o'r safle gan drigolion lleol yn ogystal â chan ymwelwyr i'r dref o rannau eraill o Gymru. Bu i aelodau ystyried y gost. Penderfyniad: i beidio â newid y trefniant presennol ac i adolygu'r sefyllfa ar ôl dwy flynedd.

12. U.F.A.

12.1 **Y mae'r Maer wedi ysgrifennu** llythyr o longyfarchiadau at ddisgyblion Ysgol Gynradd ac Uwchradd Llambed am y gwobrau a gipiwyd ganddynt yng nghystadleuaeth Eisteddfod yr Urdd Llanerchaeron 2010.

12.2 **I longyfarch hefyd,** aelodau'r Siambr Fasnach am addurno tu allan i'w hadeiladau mewn ffordd mor greadigol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Llanerchaeron 2010.

12.3 **Gofynnodd y** Cyng. G Evans tybed a fyddai'n bosibl i osod dolen yn amlinellu hanes y dref, ar gyfer safle ar y we y Cyngor Tref. *I ofyn i'r Cyng. Walters.*

12.4 **Adroddwyd bod** Cynghorydd Tref y gorffennol, sef Mr Vincent Evans, wedi dathlu ei benblwydd yn 90oed yn ddiweddar. Y Maer i anfon cyfarchion ato, ar ran y Cyngor Tref ar y fraint o gyrraedd y oedran hwn.

12.5 **Dywedodd y Cyng. Harris** ei fod wedi adrodd problem yn ymwneud â'r draeniau at sylw *Dŵr Cymru*. Cafodd problemau eu hamgyffred 3 blynedd yn ôl ar Stryd y Farchnad, oherwydd llifogydd fflach.

12.6 **Soniodd y Gyng. Dafis** fod dysgl loeren yn cael ei harddangos ar y Stryd Fawr a holwyd tybed a oedd hawl i hyn mewn Ardal Gadwraeth. *Y Cyng Harris i ymwneud ag ymholiadau pellach.*

12.7 **Mynegwyd gonsyrn iechyd a diogelwch gan y Gyng Dafis** yn ymwneud â gât ym maes chwarae Maesyfelin. Y mae'r ardal chwarae o dan ofalaeth Tai Ceredigion bellach – *i adrodd y nam at eu sylw.*

12.8 **Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** y Pwll Nofio ar Ddydd Llun, 5ed o Orffennaf am 7.00pm.

12.9 **Bydd Llambed yn croesawu Ei Fawrhydi'r** Tywysog Siarl ar y 1af o Orffennaf 2010. Bydd ei ymweliad yn cynnwys taith o gwmpas y Ganolfan Gwiltiau Jen Jones a Phrifysgol Cymru Llambed i ddathlu gwelliannau'n ymwneud â'r Llyfrgell y Founders.

12.10 **Atgofiwyd aelodau o'r Cinio'r Trydydd Byd** i'w gydlynu gan y Cyngor Tref ar Ddydd Gwener 6 Awst 2010.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, daeth y cyfarfod i ben am 9.35pm.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos lau 29ain o Orffennaf 2010 am 7.00pm, Neuadd Eglwys San Pedr.